Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafcass Cymru

# Cwestiynau Fframio

Mai 2025

llyw.cymru

# Cwestiynau Fframio

Mae cwestiynau fframio yn ddefnyddiol wrth drafod pynciau sensitif fel cam-drin domestig. Gallant agor sgwrs a pheidio â rhoi gormod o bwysau ar ddioddefwyr-oroeswyr i siarad yn uniongyrchol am y mater, ond ar gyflymder sy'n addas i'w hanghenion. Byddant yn benagored yn aml a gallant gynnig cyfleoedd pellach i archwilio. Dyma enghreifftiau o gwestiynau o'r fath:

## Llesiant Cyffredinol a Dynameg Perthnasoedd

- "Sut mae pethau yn mynd i chi yn ddiweddar?"
- "Allwch chi ddweud wrthyf am eich perthynas â'r rhiant arall?"
- "Pwy sy'n penderfynu ar y rheolau yn eich perthynas?"
- "Sut mae bywyd gartref pan rydych gyda'ch gilydd/Sut roedd bywyd gartref pan roeddech gyda'ch gilydd?".

## Archwilio Rhyngweithio o Ddydd i Ddydd

- "Sut ydych chi a'r rhiant arall yn ymdrin ag anghytundebau neu wrthdaro?"
- "Beth sy'n digwydd pan fydd eich barn chi a'r rhiant arall yn wahanol?"
- "Allwch chi ddisgrifio rhyngweithiad nodweddiadol rhyngoch chi a'r rhiant arall mewn perthynas â'r plant?".

## Asesu Diogelwch a Chysur

- "Ydych chi'n teimlo'n ddiogel yn eich amgylchedd presennol?"
- "Oes unrhyw beth gartref sy'n gwneud i chi deimlo'n anghyfforddus?".

## Deall Dynameg Emosiynol

- "Sut mae'r rhiant arall yn gwneud i chi deimlo?"
- "Allwch chi rannu sut mae'r rhiant arall yn ymateb pan fydd wedi cynhyrfu?".

## Gwerthuso Cymorth a Chyfathrebu

- "At bwy ydych chi'n troi am gymorth fel arfer pan fydd ei angen arnoch?"
- "Sut ydych chi'n teimlo am lefel y cyfathrebu rhyngoch chi a'r rhiant arall?"
- "Pa fath o gymorth sydd ei angen arnoch ar hyn o bryd yn eich barn chi?".

## Annog Deialog Agored

- "Oes unrhyw beth yr hoffech siarad amdano neu ei rannu â mi?"
- "Sut y gallaf eich cefnogi orau?"
- "Beth sydd wedi bod ar eich meddwl yn ddiweddar mewn perthynas â'ch perthynas â'r rhiant arall?".

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52047, ISBN digidol 978-1-83715-728-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg